# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher : Mrs H Davies**


02/09/2022

## Trefniadau ailagor Medi 2022

Annwyl rieni a gofalwyr,

Croeso'n ôl!

Rwy'n falch iawn o fod yn gallu ysgrifennu fy llythyr cyntaf fel Pennaeth Dros Dro Ysgol Gymraeg Parc Y Tywyn. Rwyf yn ymwybodol iawn o'r cyfrifoldeb sydd gen i a'r staff i sicrhau bod y safon uchaf o addysgu a dysgu yn parhau yma ym mhob maes. Rwyf yn barod yn gyfarwydd iawn a'r disgyblion, y staff, rieni a llywodraethwyr ac rwy'n teimlo'n freintiedig o fod yn gallu arwain ein gymuned ysgol dros y tymor nesaf.

Hoffwn ddiolch i Mr Davies am ei gymorth i sicrhau bod y cyfnod trosglwyddo i Bennaeth Dros Dro mor esmwyth â phosibl.

O ran trefniadau ail agor, bydd yr ysgol yn ailagor i'r disgyblion ar ddydd Mawrth, Medi 6ed 2022.

Mae'r ysgol yn cychwyn am 9.00am ac yn gorffen am 3.20pm i blant Meithrin Llawn amser i Flwyddyn 3 ac am 3:25 i blant Blwyddyn 4 i 6. Amseroedd plant Meithrin Rhan Amser yw 9:00-11:30. Gweler llythyr ar wahân ar gyfer trefniadau mannau casglu.

Bydd gatiau'r ysgol yn agor am 8.50am i bob blwyddyn ysgol a bydd staff wrth y gatiau i groesawu'r plant. Bydd y plant Meithrin Llawn Amser i Flwyddyn 6 yn dod i mewn trwy'r prif giat a Meithrin Rhan Amser trwy'r derbynfa. Nid yw rhieni yn gallu dod drwy'r giatiau yn y bore.

Bydd y Clwb Brecwast Am Ddim (8.15am) yn parhau. Gofynnwn i chi ystyried yn llawn a oes angen lle arnoch gan y gallai olygu y gallai teuluoedd sydd wir angen lle fod ar eu colled! Bydd drysau i'r clwb brecwast (drws allanol y neuadd) yn agor am 8:15 ac yn cau am 8:30yb. Bydd gofyn i chi lenwi ffurflen er mwyn i'ch plentyn barhau i ddefnyddio clwb brecwast. Bydd ffurflenni'n cael eu dosbarthu gan staff y clwb brecwast.

Er bod cyfyngiadau Covid wedi lleihau, byddwn fel ysgol yn parhau i annog y disgyblion i olchi eu dwylo yn aml - dwr a sebon neu ddiheintio. Byddwn yn parhau i agor y ffenestri / drysau i gael digon o awyr iach yn yr ystafelloedd.

Ni fydd unrhyw blentyn yn gadael yr ysgol tan fod rhiant yna i'w gasglu. Dim ond plant Blwyddyn 5 a 6 bydd yn cael cerdded o'r ysgol heb oedolyn unwaith i'r rhiant llenwi ffurflen i roi caniatâd.
https://forms.office.com/r/bRVe6VeKdd **neu** sganiwch y cod QR.

Byddaf yn eich hysbysu am rai dyddiadau allweddol ar gyfer Tymor yr Hydref yn ystod yr wythnos nesaf.

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu'r plant yn ôl i'r ysgol.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Yn gywir,

*H Davies*
Pennaeth Dros Dro / Acting Headteacher